



Safle rheiliau gwarchod cerddwyr i'w hystyried yn y gwaith o ddylunio manwl.
 📍 Lluniau 3D yma

Cylchfan Ewlo:

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r cynigion ar Gylchfan Ewlo, gan ddechrau o'r de.

- Ar y gylchfan lai i'r de, sydd wedi ei leoli ar Barc Dewi Sant, cynigir cylchfan newydd arddull Iseldireg. Mae hyn yn cynnwys croesfannau cyfochrog ar bob braich o'r gylchfan, gyda cherbydau yn gorfod ildio i gerddwyr a beicwyr wrth groesi. Bydd y llwybrau troed yn yr ardal hon yn cael eu lledu i o leiaf 3 metr o led.
- Bydd yr holl droedffyrdd ar y llinellau a ffafrir gan gerddwyr a beicwyr yn cael eu lledu i o leiaf 3 metr lle y bo modd. Mae hyn yn cynnwys yr adran o dan y pontydd ar y brif gylchfan, ond mae hyn yn destun gwaith dylunio ac asesiadau strwythurol pellach.
- Cynigir croesfannau Twcan ar holl freichiau'r gyffordd sy'n weddill gan gynnwys holl ffyrdd ymuno â'r A494 sy'n darparu lleoedd diogel i gerddwyr a beicwyr groesi.
- Cynigir croesfan newydd wedi'i chodi wrth y fynedfa i Ffordd Treffynnon, i'r gogledd-ddwyrain o'r brif gylchfan. Nid yw'r groesfan hon yn cael ei rheoli, ond byddai cyflymder y cerbydau sy'n ymuno ac yn ymadael Ffordd Treffynnon yn cael ei leihau gan y byddai'n ofynnol iddynt ddefnyddio ramp hyd at lefel y droedffordd.
- Bydd yr holl unedau botwm gwthio o fewn y cynllun yn cael eu gosod â chônau cyffyrddol cylchdroi a bydd yn cael eu lleoli gan gyfeirio at y canllawiau dylunio diweddaraf sy'n berthnasol i ddarparu cyfleusterau effeithiol ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg.